

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorwyr L. Burnett, M.J.G. Morgan a J.M. Norman.

Hefyd yn bresennol: Swyddog Trwyddedu (Cyngor Bro Morgannwg), Swyddog Cyfreithiol (FTB Siambrau), Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Bro Morgannwg), Mr. C. Birch a Mrs. B. Pugh

(a) Cyhoeddiad -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd M.J.G. Morgan yn cael ei benodi'n Gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(d) Caniatáu Trwydded Safle – Caffi Fredwell, Stablau Pant Wilkin, Aberthin, Y Bont-Faen –

Yr adroddiad dan ystyriaeth oedd cais o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ("y Ddeddf") i ganiatáu Trwydded Eiddo yn Café Fredwell, Stablau Pant Wilkin, Aberthin, Y Bont-faen, CF71 7GX, a gyflwynwyd gan Mr. Christopher Birch o Fredwell Café and Patisserie Ltd.

Cyfeiriodd y Swyddog Trwyddedu at y papurau a oedd wedi'u rhannu â phob parti a oedd yn esbonio pwrpas y cais yr oedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i benderfynu yn ei gylch, a thynnu sylw at adran Gefndir yr adroddiad.

Roedd rhai materion technegol yn gysylltiedig â'r cais yr oedd angen eu hystyried yn rhan o'r gwrandawriad, y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 1.6 ac 1.7 yr

adroddiad. Roedd a wnelo'r rhain â manau eistedd y tu allan a gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori a ddaeth i ben ar 7 Mehefin, 2022, cafwyd dau sylw gan unigolion eraill ac roedd y sylwadau perthnasol a gafwyd yn y negeseuon e-bost a ddaeth i law ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad D.

Dywedodd y Swyddog Trwyddedu fod y ddau barti wedi cael gwybod am y gwrandawriad ac wedi mynegi eu bod yn dymuno bod yn bresennol yn y gwrandawriad i ymhelaethu ar eu sylwadau. Gan nad oedd y sylwadau hynny wedi cael eu tynnu'n ôl, roedd y mater wedi'i symud ymlaen i gael gwrandawriad gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch y cais. Nid oedd unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach wedi dod i law gan yr Ymgeisydd na'r unigolion a oedd wedi cyflwyno sylwadau ers dosbarthu'r papurau.

Galwodd y Cadeirydd ar yr Ymgeisydd, Mr. Birch, i esbonio'r rhesymau dros y cais, a rhoi rhywfaint o fanylion pellach, fel a ganlyn:-

- Roedd y siop goffi a'r siop patisserie wedi bod yn dra llwyddiannus, ac roedd cwsmeriaid wedi holi ynghylch arllwyo digwyddiadau ychwanegol a darparu cinio dydd Sul.
- Byddai'r cais yn galluogi'r busnes i gynnig diodydd alcoholig i gyd-fynd â phryd a fyddai'n cael ei weini i gwsmeriaid, na fyddai ond yn cael eu gwerthu gyda phrydau, ac nid ar wahân, gan ychwanegu at y ddarpariaeth a gynigir i gwsmeriaid ar y safle.
- O ran digwyddiadau a cherddoriaeth fyw, roedd Mr. Birch yn adnabod telynor yr oedd am ei wahodd i ganu'r delyn unwaith y mis gyda'r nos ar nos Sadwrn, yn rhan o ddigwyddiad. Yr oedd hefyd yn dymuno gwadd band cerddorfaol bach (chwaraewr soddgrwth a thelynor) i chwarae gan y byddai'n gydnaws â'r lleoliad.
- Nid oedd yr ardal eistedd allanol wedi cael ei chynnwys oherwydd yr effaith ar yr ardal leol, ac ni fyddai diodydd alcoholig yn cael eu caniatáu y tu allan i'r eiddo.
- O ran sŵn, ers i'r gwrthwynebiadau ddod i law, roedd y busnes wedi prynu dyfais i fesur lefelau sŵn ac nid oedd sŵn amgylchynol y caffi yn glywadwy y tu allan, ond byddai'n parhau i gael ei fonitro'n agos.
- O'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law, nododd y busnes fod pryder ynghylch sŵn ychwanegol posibl neu ymddygiad gwyllt, ond roedd y lleoliad ar ben arall y ffordd i ddwy dafarn leol, yr Hare and Hounds a'r Farmers Arms, a oedd wedi bod yno ers blynyddoedd heb achosi unrhyw broblemau i breswylwyr lleol.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am gwestiynau i'r Ymgeisydd.

Gofynnodd y Cynghorydd Norman a oedd y cynnig yn golygu gwerthu alcohol heb brynu pryd. Dywedodd Mr. Birch y byddai alcohol yn cael ei werthu i gyd-fynd ag archebion bwyd, ac na fyddai'n cael ei werthu'n unigol. Gofynnodd y Cynghorydd Norman ai'r bwriad oedd gwerthu gwirodydd yn ogystal â gwin a chwrw. Dywedodd Mr. Birch mai'r bwriad oedd gwerthu gwin o Ddyffryn y Loire yn Ffrainc

No.

a chwrw o ficrofragdy lleol yn Nhrefforest, ond y byddai espresso martini hefyd yn cael ei werthu i greu cyswllt â'r siop goffi.

Cyn i'r gwrandawriad gael ei drefnu, dywedodd y Cynghorydd Burnett ei bod wedi ymweld â'r eiddo wrth dywys cynrychiolwyr o'r Gymdeithas Efeillio o amgylch mannau amrywiol ym Mro Morgannwg. Holodd ynghylch llety gwyliau yr aeth heibio ar y ffordd i'r eiddo, ac a ragwelwyd y byddai'r eiddo yn darparu prydau gyda'r nos ac ati i westeion y llety, yn y dyfodol yn rhan o'r sylfaen o gwsmeriaid. Dywedodd Mr Birch mai rhan o'r apêl i gychwyn y caffi oedd nifer y cartrefi gwyliau wrth ymyl y safle, ac roedd cwsmeriaid wedi bod yn cael eu cyfeirio i gael diodydd a phrydau gyda'r nos yn yr Hare and Hounds a'r Farmers Arms. Gallai'r cais ddenu'r preswylwyr hynny o'r 8 o gartrefi gwyliau i Fredwell yn lle'r tafarndai, gan leihau nifer y cerddwyr ar hyd y brif ffordd.

Dywedodd y Cadeirydd nad y caffi oedd yr unig fusnes yn y lleoliad hwnnw, a gofynnodd pa fusnesau eraill a oedd wedi'u sefydlu yn yr ardal. Dywedodd Mr. Birch fod yr ardal yn cynnwys milfeddygfa i geffylau, ambell uned warws, eiddo golchi rygiau ceffyl, garddwyr tirwedd a chwmni argraffu 3D. Busnesau a oedd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener oedd y rheiny'n bennaf, felly ni fyddent ag unrhyw ran mewn cyfleoedd i arlwyio gyda'r nos.

Gofynnodd y Cadeirydd a gafwyd unrhyw gwynion hyd yma ynghylch y modd yr oedd y busnes wedi cael ei gynnal. Dywedodd Mr. Birch nad oedd unrhyw gwynion wedi dod i law, ar wahân i'r ffaith bod rhai pobl wedi'i chael hi'n anodd cael hyd i'r eiddo wrth ddefnyddio llyw lloeren. Roedd yr adborth a gafwyd hyd yma wedi bod yn gadarnhaol.

Gofynnodd y Cadeirydd am gwestiynau i'r Ymgeisydd gan y Gwrthwynebydd, a wnaeth y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd Mrs Pugh fod yr Ymgeisydd bob amser wedi bod yn barod i'w helpu ac yn hawddgar wrthi.
- Roedd hi'n byw yn agos at safle'r cais, tua hanner canllath oddi wrth y caffi. Eiddo fferm ydoedd yn wreiddiol a oedd wedyn wedi'i rannu a'i ddefnyddio i ddibenion eraill.
- Dywedodd fod y sŵn o'r iard wedi cynyddu dros y pedair blynedd ar hugain yr oeddent wedi bod yn yw wrth ymyl safle'r cais, ac ni fyddai mwyach yn cael ei ystyried yn sŵn gwledig arferol.
- Byddai meddwl am werthu alcohol ar safle'r cais ar unrhyw bryd yn cynyddu nifer y cwsmeriaid ac yn cynyddu'r sŵn hwnnw.
- Dywedodd Mrs. Pugh nad oedd unrhyw ffordd i Mr. Birch blismona sŵn cwsmeriaid a oedd yn gadael yr eiddo.
- Roedd yn gwrthwynebu'r cynnydd posibl o ran sŵn, a oedd yn cynnwys cerddoriaeth fyw ar y safle, gan ei bod hi'n anochel y byddai cwsmeriaid yn gorlifo i'r ardal allanol wrth i'w niferoedd gynyddu.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gwrthwynebydd a oedd ganddi unrhyw gwestiynau i'r Ymgeisydd. Gofynnodd Mrs. Pugh faint o reolaeth fyddai gan Mr. Birch dros ei gwsmeriaid. Dywedodd Mr. Birch y byddai cwsmeriaid yn aros y tu mewn i'r eiddo, ac na fyddai alcohol ond yn cael ei werthu i gwsmer a oedd eisoes wedi archebu

No.

bwyd, a bod system y til wedi'i gosod yn unol â hynny. Nid oedd modd gwerthu alcohol ar wahân, ac roedd hynny'n amod a oedd wedi'i gytuno â Heddlu De Cymru, yn ogystal â chamerau TCC ychwanegol i blismona'r ardal oddi amgylch.

Dyweddodd Mr Birch mai'r pellter agosaf rhwng y caffi a'r eiddo agosaf drwy ddefnyddio Google Maps oedd 180 llath. Mae'r caffi yn chwarae cerddoriaeth yn weddol dawel yn y cefndir ar hyn o bryd, nad yw'n cael unrhyw effaith ar yr ardal oddi amgylch. Sŵn cyffredinol o'r fferm, traffig y fferm a busnesau eraill oedd yn creu'r rhan fwyaf o'r sŵn. Y caffi oedd un o'r busnesau pellaf i ffwrdd oddi wrth gartref y Gwrthwynebydd, a dywedodd Mr. Birch mai cyrchfan fusnes y byddai'n rhaid i bobl deithio iddi oedd y caffi, ac felly y byddai'n annhebygol y byddai mwy o sŵn yn cael ei greu gan gwsmeriaid gwyllt yn sgil gwerthu alcohol, gan y byddai'n rhaid i lawer o gwsmeriaid yrru i'r safle. Mewn unrhyw gar, dywedodd Mrs. Pugh y byddai un yn gyrru a'r gweddill yn gallu yfed.

Dyweddodd y Gwrthwynebydd ei bod yn gwerthfawrogi bod yr Ymgeisydd am gynyddu ei fusnes, ond nid oedd am iddo wneud hynny ar draul ei hiechyd.

Dyweddodd y Swyddog Cyfreithiol y byddai gan Mrs. Pugh gyfle i fynegi ei gwrthwynebiad yn llawn ar adeg briodol, ond mai cyfle oedd hyn i Mrs. Pugh ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd.

Pe bai grŵp yn ymweld â'r eiddo, gofynnodd Mrs. Pugh a fyddai modd cyfyngu ar faint y grŵp hwnnw. Dywedodd Mr. Birch y byddai'n anodd cyfyngu ar faint grŵp ond y byddai'n barod i gadw at uchafswm pe bai hynny'n cael ei osod fel amod yn gysylltiedig â'r drwydded. Roedd parti plu wedi ymweld â'r eiddo'n ddiweddar a oedd yn cynnwys grŵp o 25 o bobl am 3 awr, ac na chafwyd unrhyw gwynion o gwbl ynghylch sŵn yn ystod eu hymweliad. Yn ddiweddar, roedd y safle hefyd wedi cynnal partïon penblwydd 30 a 50 oed, a oedd yn cynnwys 70 i 80 o bobl, ac nid oedd unrhyw gwynion wedi'u gwneud ynghylch sŵn. Yn seremoni ddiweddar y Gymdeithas Efeillio roedd 18 o bobl wedi eistedd y tu allan, ac ni chafwyd unrhyw gwynion ynghylch sŵn. Teimlai Mr. Birch na fyddai cyfyngu ar nifer y bobl o reidrwydd yn golygu mwy neu lai o sŵn, ond y byddai'r sŵn yn parhau i gael ei fonitro. Dywedodd mai busnes teuluol ydoedd, a'i bod o fudd iddynt hwythau gyd-dynnu â'u cymdogion.

Dyweddodd Mrs. Pugh ei bod yn gwerthfawrogi bod amrywiaeth o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal ac nad oedd wedi clywed sŵn gormodol yn ystod y digwyddiadau hynny, ond roedd yn amau y byddai ychwanegu alcohol yn newid y sefyllfa honno.

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw awdurdodau cyfrifol yn ymwneud â'r cais ar hyn o bryd ac nad oedd yr Heddlu wedi codi unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

Gofynnodd y Swyddog Cyfreithiol rai cwestiynau atodol ynglŷn â'r cais, fel a ganlyn:-

- Dywedwyd na fyddai'r system til yn yr eiddo ond yn caniatáu gwerthu alcohol pe bai'n cael ei brynu gyda bwyd. Dywedodd Mr. Birch fod hynny'n gywir. Dywedodd y Swyddog Cyffredinol fod yr amodau a gytunwyd â'r

No.

Heddlu a oedd wedi'u cynnwys yn Atodiad B a llythyr dyddiedig 6 Mehefin, 2022 yn awgrymu y byddai'r rheolau'n cael eu llacio ar gyfer gwerthu alcohol mewn digwyddiadau preifat wedi'u harchebu ymlaen llaw. Dywedodd Mr. Birch nad oedd hynny'n gywir ac mewn digwyddiadau preifat byddai'n dal yn rhaid archebu bwyd a fyddai'n cael ei weini a fyddai wedyn yn galluogi'r cwsmeriaid i brynu alcohol fel un archeb gyfan. Roedd modd llogi ystafell yn rhad ac am ddim ar yr amod bod nifer penodol brydau'n cael eu harchebu yn rhan o'r archeb. Awgrymodd y Swyddog Cyfreithiol felly y gellid diwygio amod 7, fel y cytunwyd â'r Heddlu. Dywedodd Mr. Birch fod hynny'n gywir.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gwrthwynebydd gyflwyno ei hachos yn erbyn y cais, a byddai cyfle wedyn i eraill a oedd yn bresennol ofyn unrhyw gwestiynau, fel bo'r angen, a gwnaed y pwyntiau canlynol:-

- Roedd Mrs. Pugh yn anfodlon ynghylch y cynnydd mewn cwsmeriaid yn y caffï wrth iddo barhau i dyfu.
- Roedd meddwl am gerddoriaeth a gwerthu alcohol ar yr eiddo yn ei gadael yn teimlo'n bryderus.
- Roedd hi'n mwynhau eistedd yn ei gardd, ac nid oedd am i'r cynnydd amrywiol mewn sŵn a oedd bellach yn digwydd yn yr ardal yn sgil cynnydd mewn gweithgarwch darfu arni.
- Roedd yr ardal yn arfer bod yn ardal amaethyddol, ac roedd wedi newid i ryw fath o stad ddiwydiannol fechan, gyda chaniatâd yn cael ei roi'n ôl-weithredol, yn hytrach nag ymlaen llaw, a hynny heb unrhyw ohebiaeth.
- Teimlai bod ei barn ar faterion wedi cael ei hanwybyddu dros y pedair blynedd ar ddeg ddiwethaf wrth i ddefnydd y safle newid.
- Yn anochel, byddai trwydded alcohol yn cynyddu busnes i'r Ymgeisydd, ond gofynnodd i ba raddau y byddai hynny'n cael ei fonitro.

Cododd y Cynghorydd Norman wrthwynebiad ynghylch materion cynllunio, gan mai Is-bwyllgor Trwyddedu oedd hwn, yn hytrach na chyfarfod y Pwyllgor Cynllunio. Dywedodd Mrs Pugh fod hyn yn berthnasol oherwydd dylid rhoi ystyriaeth i breswylwyr sy'n byw o amgylch yr eiddo.

Pe bai'r drwydded yn cael ei chaniatáu, atgoffodd y Swyddog Cyfreithiol y Gwrthwynebydd fod cyfle pellach i godi problemau pe bai sŵn yn achosi problem ar y safle yn y dyfodol. Gellid adolygu'r drwydded pe bai materion yn cael eu codi a'u dwyn yn ôl i'w hystyried gerbron y Pwyllgor. Nid oedd Mrs. Pugh yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw. Dywedodd y Swyddog Cyfreithiol y byddai'n cymryd 28 diwrnod o ddyddiad derbyn cais am adolygiad, ac y byddai'n rhaid i'r Pwyllgor gynnal gwrandawriad ar y mater cyn pen 28 diwrnod arall.

Gofynnodd y Cadeirydd am gwestiynau gan y Gwrthwynebydd a chan yr Aelodau, y Swyddog Cyfreithiol a'r Ymgeisydd. Nid oedd gan yr Aelodau na'r Swyddog Cyfreithiol unrhyw gwestiynau. Gofynnodd Mr. Birch i Mrs. Pugh ddeall ei fod yn gwerthfawrogi'r materion yr oedd wedi'u codi, ond mai lesddaliwr ydoedd, yn hytrach na thirfeddiannwr, a'i fod yn ceisio gwneud ei orau er budd ei fusnes. Os oedd gan y Gwrthwynebydd unrhyw broblemau yr oedd am eu codi, dywedodd fod ganddi ei fanylion cyswllt a bod croeso iddi gysylltu ar unrhyw bryd.

Nid oedd gan y Cadeirydd unrhyw gwestiynau pellach, a dywedodd y byddai'r holl bartïon perthnasol yn cael cyfle i roi crynodeb o'u hachos. Gwahoddodd y Gwrthwynebydd i siarad.

Dyweddodd Mrs. Pugh fod croeso i unrhyw un ddod i weld pa mor agos oedd yr eiddo i'w chartref, ac roedd yn anghytuno â'r ffigur pellter y cyfeiriwyd ato'n flaenorol. I gloi, dywedodd y byddai eiddo trwyddedig yn creu sŵn, does ots i ba raddau y byddai hynny'n cael ei reoli.

Ychwanegodd Mr. Birch, pe bai unrhyw amodau pellach yn cael eu gosod a fyddai'n dderbyniol gan gymdogion cyfagos y byddai'n ceisio cydymffurfio â nhw.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw bwyntiau yr oedd angen eu hegluro'n derfynol, a gofynnodd i'r Swyddog Cyfreithiol wneud sylwadau ar y cais a rhoi arweiniad ynghylch yr amodau yr oedd yr ymgeisydd yn gofyn amdanynt, ac a oedd angen eu haddasu mewn unrhyw ffordd.

- Atodiad B a oedd yn cynnwys rhestr o 7 amod. Roedd Amod 2 yn cyfeirio at bolisi 'Herio 25', a nodai'r cais na fyddai alcohol ond yn cael ei weini i rai dro 25 oed. Dywedodd y Swyddog Cyfreithiol mai'r amod mwyaf arferol fyddai cadw at yr amod 'Herio 25' a herio'r rhai a oedd yn edrych fel pe baent yn iau na 25, oherwydd gellid gwerthu alcohol y gyfreithlon i rai dros 18 oed. Roedd Mr. Birch yn fodlon â'r amod hwnnw.
- Roedd y cais yn cyfeirio at gyfyngu ar nifer y diodydd a werthir i gwsmeriaid i dri. Awgrymodd y Swyddog Cyfreithiol y gallai'r amod hwnnw fod yn anymarferol. Dywedodd Mr. Birch y byddai modd defnyddio system y til i gadw at yr amod hwnnw. Gofynnodd y Swyddog Cyfreithiol a fyddai poteli gwin yn cael eu gwerthu, ac felly sut y byddai'r cyfyngiad o dair diod yn cael ei orfodi. Dywedodd Mr. Birch y byddent yn gwerthu poteli gwin. Cynigiodd y Swyddog Cyfreithiol y dylid gosod yr amod bod yn rhaid cyfyngu ar werthiant alcohol i'r cwsmeriaid hynny sy'n prynu pryd o fwyd. Roedd Mr. Birch yn fodlon â hynny.
- Yn Amod 5, nodwyd y byddai o leiaf 50% o'r ardal drwyddedig yn cynnwys byrddau a chadeiriau. Dywedodd Mr. Birch mai'r ganran wirioneddol oedd 100% o fyrddau. Gofynnodd y Swyddog Cyfreithiol a fyddai Mr. Birch yn fodlon newid y ffigur hwnnw ar gyfer byrddau a chadeiriau'r ardal drwyddedig o 50 i 100%. Byddai'n well gan Mr. Birch adael y ffigur fel yr oedd, ond byddai'n cytuno â'r amod pe bai'n cael ei gynnig. Roedd y ffigur o 50% wedi'i gynnig fel bo modd aildrefnu'r byrddau yn naill ben yr ystafell ar gais, gan alluogi mwy o bobl i sefyll nag eistedd i lawr. Roedd y Swyddog Cyfreithiol yn fodlon gadael y ffigur heb ei newid.
- Cyfeiriodd y Swyddog Cyfreithiol at amod 6, sef y byddai Goruchwylydd Dynodedig yr Eiddo neu Ddeilydd Trwydded personol yn bresennol hyd ddiwedd digwyddiad preifat, a gofynnodd a oedd yr Ymgeisydd yn fodlon â'r amod hwnnw. Roedd Mr. Birch yn fodlon â'r amod, gan y byddai ef ei hun, ei bartner busnes, rheolwr y caffi neu gyfuniad o'r tri yn bresennol ar yr adegau pan fyddai alcohol yn cael ei weini.
- Gofynnodd y Swyddog Cyfreithiol a oedd yr Ymgeisydd wedi deall yr amlinelliad a roddwyd gan y Swyddog Trwyddedu ar ddechrau'r cais, ac

No.

effaith Deddf Dadreoleiddio 2015, gan fod gan yr eiddo hawl i gael cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio. Dywedodd Mr. Birch ei fod wedi deall yr amlinelliad ond ei fod am egluro'n union beth oedd yn cael ei gynnig ar gyfer yr eiddo. Dywedodd y Swyddog Cyfreithiol nad oedd angen gwneud cais i gynnwys cerddoriaeth fyw ac wedi'i recordio gan fod hynny eisoes wedi'i ganiatáu'n gyfreithiol, ac awgrymodd y dylid dileu'r cyfeiriad o'r cais. Roedd Mr. Birch yn fodlon â hynny.

- Gofynnodd y Swyddog Cyfreithiol am gadarnhad a oedd hynny hefyd yn wir yn achos lluniaeth hwyr y nos, gan fod gwerthu bwyd poeth a diodydd eisoes wedi'i ganiatáu'n gyfreithiol nes 11pm. Roedd Mr. Birch yn fodlon tynnu'r cais ar gyfer lluniaeth hwyr y nos yn ôl hefyd.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw bwyntiau eraill i'w hegluro gan unrhyw barti a oedd yn bresennol.

Estynnodd y Gwrthwynebydd wahoddiad i'r Ymgeisydd ymweld â'i chartref i weld pa mor agos oedd yr eiddo i'w chartref, ac i werthfawrogi na allai eistedd yn yr ardd a gwranddo ar ddewis pobl eraill o gerddoriaeth. Dywedodd yr Ymgeisydd y byddai'n hapus i dderbyn y gwahoddiad hwnnw.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw bwyntiau eraill i'w codi cyn ymadael i drafod y cais. Ni chodwyd unrhyw bwyntiau pellach felly gofynnodd y Cadeirydd i'r holl bartïon allanol ddatgysylltu o'r cyfarfod, a byddent yn cael eu galw'n ôl i glywed canlyniad y trafodaethau.

Ar ôl i'r holl bartïon ailymgynnull, rhoddodd y Cadeirydd y crynodeb canlynol:-

- Roedd yr Aelodau wedi gwranddo'n ofalus ar yr Ymgeisydd a'r Gwrthwynebydd ac wedi ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ym mhapurau'r adroddiad.
- Roedd yr Aelodau'n cydymdeimlo â'r safbwyntiau a godwyd gan y Gwrthwynebydd.
- Roedd y cais ei hun yn gymedrol.
- Roedd yr Ymgeisydd wedi cytuno â nifer o amodau i warchod yr amgylchedd lleol, ac wedi cytuno na fyddai diodydd alcoholig ond yn cael eu gweini drwy wasanaeth bwrdd ac ar gyfer digwyddiadau preifat.
- Roedd yr Ymgeisydd wedi dweud nad oedd ganddo unrhyw fwriad i ddefnyddio'r ardal allanol i gyflenwi na gwerthu alcohol.
- Roedd yr Ymgeisydd wedi cytuno ag amodau'r drwydded, yn unol ag unrhyw ddiwygiadau a fyddai'n cael eu gwneud wrth benderfynu'n derfynol ynghylch y cais.
- Roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi'r berthynas rhwng yr Ymgeisydd a'r Gwrthwynebydd, yn gobeithio y byddai'r berthynas honno'n parhau i fod yn gadarnhaol, ac y byddai'r Ymgeisydd yn gwranddo ar y Gwrthwynebydd pe bai unrhyw faterion yn codi yn y dyfodol.
- Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cais gan yr awdurdodau statudol.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r penderfyniad manwl terfynol yn cael ei gyhoeddi cyn pen 5 niwrnod gwaith, ac yn cynnwys yr amodau perthnasol yr oedd yr Ymgeisydd wedi cytuno â nhw. Os oedd y Gwrthwynebydd yn dymuno apelio,

No.

gellid cyflwyno apêl cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad penderfynu'r cais. Byddai preswylwyr lleol hefyd yn cael cyfle yn y dyfodol i wneud cais i adolygu'r drwydded pe na bai'n cael ei gweithredu'n unol â'r hyn a nodwyd yn y cais.

PENDERFYNWYD – Y caiff y cais, gydag amodau diwygiedig, ei gymeradwyo.

#### Rhesymau dros y penderfyniad

Wrth ddod i'r penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi gwrandao'n ofalus ar y sylwadau a wnaed yn ystod y gwrandawriad gan bob parti ac wedi ystyried sylwadau ysgrifenedig y preswilydd a ddewisodd beidio â bod yn bresennol.

Nodwyd bod sylwadau'r heddlu wedi'u tynnu'n ôl ar ôl i'r ymgeisydd dderbyn yr amodau yn eu llythyr dyddiedig 6 Mehefin, 2022 (Atodiad B).

Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y datganiad o bolisi trwyddedu; Canllawiau'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a gyhoeddwyd o dan a.182 ALI 2003; a Deddf Hawliau Dynol 1998.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod hwn yn gais gwylaidd. Roedd y safle'n fach heb unrhyw effaith hanesyddol. Nid oedd gan yr Is-bwyllgor unrhyw reswm dros gredu y byddai caniatâd i werthu alcohol gyda phryd bwrdd y tu mewn i'r safle yn newid y sefyllfa hon.

Fel amddiffyniad pellach, mae'r Is-bwyllgor wedi atodi amodau pellach i'r drwydded a fyddai'n cyfyngu ar ei weithrediad, fel a ganlyn:-

1. Byddai system Teledu Cylch Cyfyng yn cael ei gosod i safon y cytunir arni fel y cymeradwyr gan Heddlu De Cymru, a bydd yn cael ei chynnal, ei chadw a'i gweithredu bob amser y mae'r safle ar agor i'r cyhoedd. Byddai'r system yn cadw golwg ar bob rhan o'r safle lle mae gan y cyhoedd fynediad (ac eithrio tai bach) gan gynnwys pob mynedfa ac allanfa cyhoeddus. Byddai'r delweddau ar gael am o leiaf 31 diwrnod. Byddai'r delweddau yn cael eu rhoi i un o gyflogeion yr Heddlu ar gais, mewn fformat y gellir ei chwarae ar unwaith, pan fo'r safle ar agor i'r cyhoedd, ac ar adegau eraill cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Byddai nifer ddigonol o staff hyfforddedig i hwyluso'r uchod.

2. Byddai'r safle'n gweithredu polisi 'Her 25'. Byddai'r polisi hwn yn cael ei ddwyn i sylw cwsmeriaid gan staff a thrwy arddangos arwyddion priodol. Yr unig fath o brawf adnabod a dderbynnir fyddai cardiaid adnabod â ffotograff arnynt, megis trwydded yrru, pasbort, Cerdyn Lluoedd EM neu gerdyn cynllun prawf oedran gyda logo PASS.

3. Byddai cofnod digwyddiadau'n cael ei gadw yn y safle. Byddai unrhyw achos o drosedd neu anhrefn a welwyd gan staff neu unrhyw ddigwyddiad a gofnodwyd gan gwsmeriaid yn cael ei adrodd yn y log. Dylid cofnodi'r wybodaeth ganlynol mewn perthynas â phob digwyddiad:-

- Dyddiad ac amser y digwyddiad
- Enw'r person sy'n gwneud yr adroddiad



No.

- Enwau'r partïon perthnasol (os yn hysbys) neu ddisgrifiad o'r partïon (mor fanwl â phosibl)
- Natur y digwyddiad
- Unrhyw gamau gweithredu a gymerir ar ôl hynny
- Gwrthod gwerthu

Byddai staff yn cael eu hyfforddi yn unol â'u cyfrifoldeb i gwblhau adroddiad digwyddiad. Byddai mynediad i adroddiadau digwyddiadau ar gael i Heddlu De Cymru ar gais.

4. Byddai'r holl staff sy'n delio â chwsmeriaid yn derbyn hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â gwerthu alcohol a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Byddai'r hyfforddiant hwn yn cael ei adnewyddu'n flynyddol gyda chofnod yn cael ei gadw ar y safle. Byddai'r cofnod hyfforddi yn cael ei gadw am gyfnod o 12 mis a byddai ar gael i'w archwilio ar gais gan Swyddog Heddlu De Cymru neu berson awdurdodedig arall.

5. Byddai o leiaf 50% o'r ardal drwyddedig yn fyrddau a chadeiriau

6. Pryd bynnag y caiff y safle ei logi ar gyfer digwyddiad preifat neu fod digwyddiad wedi'i gynllunio ymlaen llaw yn cael ei gynnal yno a bod alcohol yn cael ei werthu, byddai'r Goruchwylydd Safle Dynodedig neu Ddeiliad Trwydded personol yn bresennol drwy gydol y digwyddiad.

7. (Fel y'i diwygiwyd) Ni ddylai gwirod meddwol gael ei werthu na'i gyflenwi ar y safle ac eithrio i bobl sy'n bwyta pryd o fwyd wrth fwrdd.

Cafodd yr Is-bwyllgor ei galonogi gan y ddeialog a oedd eisoes yn digwydd rhwng Mrs Pugh a'r Ymgeisydd ac anogodd i hyn barhau. Pe bai problemau'n codi mewn cysylltiad â'r safle na ellir eu datrys, atgoffwyd Mrs Pugh o'i hawl i geisio adolygiad o'r drwydded yn ddiweddarach.

Roedd gan unrhyw berson a gyflwynodd sylwadau yn erbyn cymeradwyo'r drwydded hon hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Rhaid i unrhyw apêl gael ei gwneud yn ysgrifenedig i'r Llys Ynadon 21 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad.